# Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Annibynnol o Ddarpariaeth Ddysgu Colegau Addysg Bellach a Pherthnasedd y Ddarpariaeth honno o ran Cefnogi Busnesau Fferm yng Nghymru

# Ymateb a Chynllun Gweithredu

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Bod LANTRA yn cynnull grŵp bach a hwnnw'n cynnwys unigolion allweddol o'r colegau, y cyrff yn y sector a gyllidir ag ardoll a ffermwyr-gyflogwyr i symud yr agenda yn ei blaen o ran prentisiaethau. Efallai y bydd y colegau AB yn gallu adnabod a lledaenu'r arfer da sy'n bodoli mewn sectorau eraill yn hyn o beth. | Derbyn | Llywodraeth Cymru a Lantra | Bydd yr Adran Prentisiaethau Addysg Bellach (AB) yn yr Adran Addysg a Sgiliau yn hwyluso'r broses o greu grŵp bach i ystyried arferion da a sut y gellir gwella ymgysylltiad cyflogwyr yn y maes hwn. Rhagwelir y bydd y grŵp yn cynnal ei gyfarfod cyntaf yn ystod haf 2015. | Haf 2015 | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Mae'r Uned Brentisiaethau o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau ac mewn cydweithrediad â LANTRA, wrthi'n rhoi'r argymhelliad hwn ar waith. |
| 2 | Y dylai'r tri phrif ddarparwr cyrsiau Amaethyddiaeth Lefel 3, sef Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a Choleg Sir Gâr gael anogaeth a chymorth i ddatblygu dull cydlynol, cydweithredol a chyflenwol o gefnogi amaethyddiaeth a llunio'u cynlluniau ar gyfer cydweithredu fel mater o flaenoriaeth. Yn hyn o beth dylent weithio i gynnwys colegau eraill. | Derbyn (mewn egwyddor) | Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a Choleg Sir Gâr | Bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso cyfarfod cychwynnol rhwng yr Athro Wynne Jones a'r holl ddarparwyr AB sy'n cynnig cyrsiau Amaethyddiaeth Lefel 3 yng Nghymru, i nodi ei weledigaeth ac annog cydweithrediad rhyngddynt. | Gwanwyn 2015 | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus rhwng yr Athro Wynne Jones a Sefydliadau Addysg Bellach Cymru. Mae'r Colegau'n hapus â'r adroddiad ac yn derbyn yr argymhelliad hwn. Maen nhw wrthi'n ystyried datblygu'u cwricwlwm, datblygiad proffesiynol parhaus a thechnegau cyfnewid gwybodaeth, ac yn y cyfamser, wedi ffurfio Rhwydwaith Colegau i |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ddarparu gwasanaeth mwy integredig ar lefel Cymru gyfan. Roedd y Rhwydwaith yn rhan o dendr cyfnewid gwybodaeth llwyddiannus o dan Fframwaith Cyswllt Ffermio.<br><br>Ym Mai 2016, cyflwynodd y Rhwydwaith Colegau gynnig am arian RhDG i sefydlu prosiect rhwydweithio lle byddent yn cydweithio â'i gilydd i ddarparu mynediad at ffermydd coleg model a dyfeisio atebion hyfforddiant i ddiwallu anghenion y diwydiant. Cymeradwywyd y prosiect yng Ngorff 2016 a bydd yn cychwyn ym Medi 2016. |
| 3 | Bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu mesurau i sicrhau mwy o integreiddio rhwng darparwyr gwasanaethau wrth ddyrannu cyllid. Mae'n bwysig datblygu llwyddiant mentrau presennol megis Cyswllt Ffermio a meithrin | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu llwyddiant mentrau presennol megis Cyswllt Ffermio, trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf, ac yn meithrin mwy o allu yng Nghymru, fel a argymhellir yn adolygiad Gareth Williams o | Hydref 2015 | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Rhoddir yr argymhelliad hwn ar waith o dan raglen newydd Cyswllt Ffermio, a ddechreuodd Hydref 2015 a'i ddarparu trwy Gymunedau |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | mwy o allu yng Nghymru, gan ddefnyddio, lle y bo'n bosibl, yr adnoddau cyhoeddus sydd ar gael. Dylid annog aliniad â llwyfannau eraill yn y DU a mynediad at gyfleoedd cyllido o ffynonellau eraill lle bynnag y bo'n bosibl. | | | Cyswllt Ffermio.<br><br>Trwy ei Fframwaith Cynllunio a Chyllido, bydd yr Adran Addysg a Sgiliau yn annog camau i integreiddio'r ddarpariaeth a sicrhau nad oes cystadleuaeth ddiwerth. | | Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu gwledig (RhDG) 2014-2020. Mae'n rhaglen Cymru gyfan o gyfnewid gwybodaeth, cyngor arbenigol a chymorth arloesi, wedi'i datblygu ar y cyd â'r diwydiant amaeth gan gymryd adolygiadau a gwerthusiadau annibynnol diweddar i ystyriaeth.<br><br>Mae'r amodau ar gyfer ymuno â'r rhaglen newydd wedi'u hymestyn er mwyn i fwy o fusnesau a phobl sy'n gweithio yn y sectorau amaeth, coedwigaeth a bwyd allu cymryd rhan ynddi. Mae wedi'i halinio â phecynnau a gweithgareddau cymorth busnes eraill Llywodraeth Cymru gan gynnwys Busnes Cymru a Cymru Effeithlon.<br><br>Yn ei thrafodaethau â darparwyr Addysg Bellach yng Nghymru, mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi bod yn |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | eu hannog i integreiddio'u darpariaeth. |
| 4 | Fel elfen o'r strategaeth sydd wrthi'n datblygu ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, dylid sefydlu grŵp i ddatblygu Strategaeth Addysg a Datblygiad Amaethyddol ar gyfer Cymru.<br><br>Dylai'r grŵp fod ar ffurf Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddechrau, a hwnnw'n cynhyrchu strategaeth a chynllun gweithredu. Wedi hynny, gellid ei gynnull bob hyn a hyn (bob 2 flynedd) i fonitro a gwerthuso cynnydd gyda'r strategaeth a'r defnydd ohoni. | Derbyn (yn rhannol) | Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr AB ac AU | Mae Strategaeth Amgylcheddol yn cael ei datblygu i nodi'r weledigaeth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Bydd y Strategaeth hon yn ystyried addysg a dysgu amaethyddol a chymorth i fusnesau fferm yng Nghymru felly ystyrir nad oes angen strategaeth ar wahân ar gyfer addysg.<br><br>Bydd y tri phrif ddarparwr cyrsiau Amaethyddol Lefel 3 yn cael eu hannog i fwydo i mewn i ddatblygiad y Strategaeth Amaethyddol fel rhan o'r dull a gytunwyd yn argymhelliad 2.<br><br>Roedd adolygiad Gareth Williams o Cyswllt Ffermio yn argymell y dylid parhau â'r Grŵp Cynghori Strategol a'i ehangu, a bydd hwnnw hefyd yn rhoi cyngor ar ddatblygu sgiliau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. | Hydref 2015 | **Yn mynd rhagddo**<br><br>Roedd y Colegau'n deall ac yn derbyn y rhesymau dros beidio â chreu strategaeth addysg amaethyddol ar wahân. Byddant yn dewis cynrychiolydd i fynegi barn y grŵp wrth Lywodraeth Cymru a chyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth Amaethyddol trwy waith Grŵp Partneriaeth y Fframwaith Strategol.<br><br>Bydd Is-grŵp Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio ar y Rhaglen Datblygu a Dysgu Gydol Oes yn cynnwys cynrychiolwyr o brifysgolion a cholegau Cymru.  Bydd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth o sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau er lles y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Bydd y gwaith o ddatblygu Strategaeth Addysg a Datblygiad Amaethyddol i Gymru yn cael ei roi yng ngofal Grŵp Partneriaeth y Fframwaith Strategol. |
| 5 | Y dylai Grŵp y Strategaeth roi sylw arbennig i strwythur, cynnwys a heriau cyflwyno'r ddarpariaeth Lefel 3 mewn amaethyddiaeth. Mae'n hanfodol bod y cymhwyster y penderfynir arno'n ateb gofynion y diwydiant a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, yn ogystal â'r amcanion addysgol arferol. Yn y tymor canolig, byddai'n ddymunol sefydlu'r lefel hon o gymhwyster fel isafswm y gofynion mynediad ar gyfer y rhai sy'n dymuno rhedeg busnes fferm yn y dyfodol. Ar ben hynny, dylai grŵp y strategaeth hefyd sicrhau bod y ddarpariaeth Lefel 4 yn ateb galwadau technolegol amryw sectorau amaethyddol gan felly alluogi cyfleoedd dysgu parhaus yn y technolegau hynny a'r rheiny'n gysylltiedig â hyfforddiant rheoli. | Derbyn (yn rhannol) | Llywodraeth Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn ddymunol proffesiynoli'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru ymhellach. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i fonitro priodoldeb cymwysterau trwy'r Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (DAQW). Mae'r broses hon yn gwirio pwysigrwydd pob un o'r cyrsiau addysgol i'r diwydiant.<br><br>Trwy'r adolygiad parhaus o Gymwysterau, bydd Paneli Cynghori ar Gymwysterau Sector yn cael eu sefydlu. Nod y gweithgarwch Blaenoriaeth Cymwysterau Sector (SQP) yw gostwng nifer y cymwysterau sy'n mynd i mewn i'r system. Mae cyrff cynrychioli sector yn adolygu | Yn barhaus | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Mae Lantra a chyrff sectorol eraill wedi bod yn ystyried cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio, i'w helpu i flaenoriaethu cymwysterau.<br><br>Is-grŵp o Grŵp Partneriaeth y Fframwaith Strategol fydd yn mynd â'r gwaith hwn yn ei flaen. |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cymwysterau sydd yn yr arfaeth ac yn rhoi barn ar ran y sector ynghylch eu perthnasedd (o ran symud ymlaen i'r cam nesaf mewn addysg neu i gyflogaeth) a'u gwerth (o ran budd addysgol ehangach i'r dysgwr). | | |
| 6 | Unwaith y bydd y prif ddarparwyr a nodir yn argymhelliad 2 wedi llunio dull ar y cyd a threfniadau cydweithio agos trwy ganolbwyntio ar gyfnewid dysgu, datblygiad a thechnoleg, mae angen iddynt sefydlu perthynas weithio gydlynol â'r Prifysgolion hynny yng Nghymru ag arbenigwyr ymchwil ac addysg amaethyddol cryf i fanteisio'n llawn ar eu hadnoddau ar y cyd a chynyddu'r cyfleoedd i'r eithaf. Mae angen i'r colegau sefydlu o fewn eu hybiau gysylltiadau agos â'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio yng Nghymru, y cyrff allweddol a gyllidir ag ardoll sy'n rhoi cymorth yng Nghymru a sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys CNC. Mae'n berthnasol ystyried ffurfio hybiau i wasanaethu | Derbyn (mewn egwyddor) | Cynrychiolwyr AB ac AU | Bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso cyfarfodydd cychwynnol rhwng yr Athro Wynne Jones a'r holl ddarparwyr AB sy'n cynnig cyrsiau Amaethyddiaeth Lefel 3 i nodi ei weledigaeth. Dylai'r cyfarfod hwn annog cydweithrediad rhwng yr holl ddarparwyr yng Nghymru a dylai'r grŵp drafod datblygiad hybiau cyfnewid a chanlyn arni â hynny. | Gwanwyn 2015 | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Fel y dywed argymhelliad 2, mae Rhwydwaith o Golegau wedi'i sefydlu i ddarparu gwasanaeth Cymru gyfan mwy integredig. Cyflwynodd y Colegau sy'n aelodau ohono gynnig am arian y RhDG ym mis Mai i sefydlu prosiect rhwydweithio lle byddent yn cydweithio â'i gilydd i ddarparu mynediad at ffermydd coleg model a dyfeisio atebion hyfforddiant i ddiwallu anghenion y diwydiant. Cymeradwywyd y prosiect yng Ngorff 2016 a bydd yn cychwyn ym Medi 2016. Bydd y bartneriaeth cydweithio'n gweithio hefyd â |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gogledd orllewin, gogledd ddwyrain, de orllewin a de ddwyrain Cymru. | | | | | phrifysgolion allweddol a Cyswllt Ffermio. |
| 7 | Er mwyn cofleidio'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chylch gwaith ehangach arfaethedig y sector colegau AB, mae angen datblygu staff o ran eu gwybodaeth am dechnolegau amaethyddol arloesol i ategu eu harbenigedd addysgol. Dylai'r colegau perthnasol drafod gydag IBERS i fabwysiadu'r Bartneriaeth Hyfforddiant Uwch er mwyn darparu ar gyfer datblygiad technolegol a phroffesiynol eu staff mewn amaethyddiaeth tir glas ac anifeiliaid cnoi cil. Gallai'r Bartneriaeth Hyfforddiant Uwch ar gyfer staff hefyd dynnu ar fentrau ffermio âr a mentrau bwyd tebyg sy'n gweithredu ym mhrifysgolion Nottingham a Reading yn y drefn honno. | Derbyn (mewn egwyddor) | Cynrychiolwyr AB ac AU, IBERS | Disgwylir y bydd y grŵp a gynigir gan argymhelliad 2 yn cynnwys o fewn ei gylch gwaith gam gweithredu i ymgysylltu ag IBERS i ddatblygu Partneriaeth Hyfforddiant Uwch ar gyfer eu staff ac i hyrwyddo arfer gorau. | Gwanwyn 2015 | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Trafodwyd yr argymhelliad hwn yn y cyfarfod (gweler yr wybodaeth ddiweddaraf yn argymhelliad 2) ac mae'r Athro Wynne Jones wedi cwrdd ag IBERS.<br><br>Mae'r Colegau'n datblygu strategaeth ar y cyd i gasglu, rhannu a dangos arferion da i'r sector Amaeth yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd i wella sgiliau technegol ynghyd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus y rheini sy'n gweithio yn y sector. Maen nhw'n rhan o'r tendr llwyddiannus ar gyfer Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi trwy Cyswllt Ffermio.<br><br>Cyflwynodd y Rhwydwaith o |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Golegau gynnig am arian y RhDG ym mis Mai i sefydlu prosiect rhwydweithio lle byddent yn cydweithio â'i gilydd i ddarparu mynediad at ffermydd coleg model a dyfeisio atebion hyfforddiant i ddiwallu anghenion y diwydiant. Cymeradwywyd y prosiect yng Ngorff 2016 a bydd yn cychwyn ym Medi 2016. |
| 8 | Bod cronfa ddata'n cael ei chreu i goladu a chofnodi'r holl fyfyrwyr o Gymru sy'n ymgysylltu â darpariaeth amaethyddol AB ac AU. Mae'n anodd cael unrhyw amcangyfrif o'r galw am bobl yn y diwydiant, sydd felly'n ei gwneud yn anodd llunio unrhyw dybiaethau rhesymol ynghylch y cyflenwad yn ateb y galw. Byddai'r data hwn yn galluogi amcangyfrifon gwell o'r galw am newydd-ddyfodiaid, cyfleoedd ar gyfer datblygiad gyrfa yn ogystal ag anghenion o ran hyfforddiant ac addysg. | Derbyn (mewn egwyddor) | Colegau a phrifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru | Mae'r sefydliadau AB ac AU yng Nghymru ar hyn o bryd yn cofnodi ac yn coladu eu hystadegau eu hunain ar fyfyrwyr. Gall Llywodraeth Cymru weld budd a bydd yn annog y sector AB ac AU yng Nghymru i rannu data. | Yn barhaus | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Trafodwyd yr argymhelliad â'r Colegau Addysg Bellach ym mis Ebrill 2015. Mae rhagor o drafodaethau wedi'u cynnal i annog y sectorau AB ac AU yng Nghymru i rannu data trwy'r grŵp a rhwydwaith Addysg Bellach astudiaethau tir.<br><br>Mae'r Colegau wedi cytuno ar strategaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth trwy fenter y Rhwydwaith Colegau. |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Bod angen ymrwymiad difrifol i ddatblygiad proffesiynol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn y diwydiant i aros gyfuwch â’r datblygiadau technolegol esblygol a chystadleurwydd busnesau. | Derbyn | Y diwydiant a Llywodraeth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso cyfarfod cychwynnol rhwng yr Athro Wynne Jones a rhanddeiliaid o’r diwydiant yng Nghymru i nodi’r weledigaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i unigolion yn y diwydiant ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol ac mae’n cefnogi’r angen i aros gyfuwch â thechnolegau esblygol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru, trwy’r Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf, yn amcanu at ddatblygu sgiliau rheoli, busnes ac entrepreneuraidd unigolion gan fynd ati’n barhaus i hyrwyddo’r defnydd o TGCh. | Hydref 2015 | **Wedi’i gwblhau.**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru’n wrthi’n gweithio ar ei rhan hi o’r argymhelliad hwn fel aelod o Grŵp Partneriaeth y Fframwaith Strategol a’i waith a thrwy’r Weledigaeth y mae’n ei rhannu â’r diwydiant ar gyfer diwydiant amaeth ffyniannus a chadarn yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi nifer o sbardunau ar waith i’w helpu â’r agenda hon, gan gynnwys Rhaglen Cyswllt Ffermio, sy’n elfen bwysig.<br>Er mwyn i’r diwydiant dderbyn ac ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol ei aelodau, bydd yn rhaid wrth weithredu diflino gan yr holl randdeiliaid allweddol. |
| 10 | Dylai Llywodraeth Cymru wahodd tendrau i ddatblygu a gweithredu fframwaith achredu ar gyfer yr holl weithgarwch Datblygiad Proffesiynol Parhaus yng | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i unigolion yn y diwydiant ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol ac mae’n cefnogi’r angen i gofnodi a | Hydref 2015 | **Wedi’i gwblhau.**<br><br>Mae rhaglen Cyswllt Ffermio, a ddechreuodd yn Hydref 2015, yn mynd i’r afael â’r |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nghymru. Bydd y fframwaith yn adeiladu ar, ac yn gydnaws â'r datblygiadau ar basbortau sgiliau yn ogystal â'r rhaglenni DPP sectoraidd presennol hynny e.e. Pig Pro a Dairy Pro. Dylai'r fframwaith gydnabod y cyffelybrwydd sylweddol rhwng y sectorau llaeth a chig coch yng Nghymru a dylai gael cefnogaeth y sectorau hyn a'r undebau ffermwyr a sefydliadau perthnasol eraill yng Nghymru. Ar y cam hwn, fy marn i ar ôl ystyried yw y dylem fabwysiadu dull gwirfoddol, yn hytrach na gorfodol, o fynd ar drywydd DPP. | | | gwerthuso'r wybodaeth. Er mwyn cyflawni hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn gweithredu fframwaith achredu ar gyfer yr holl weithgaredd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yng Nghymru i gefnogi a gwella proffesiynoldeb cynyddol Amaethyddiaeth.<br><br>Bydd y fframwaith achredu'n cael ei integreiddio â rhaglenni achredu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus presennol ac yn eu hategu. | | argymhelliad hwn. Mae'r rhaglen yn cael ei darparu trwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (RhDG).<br><br>Bydd Rhaglen Datblygu a Dysgu Gydol Oes Cyswllt Ffermio yn datblygu ac yn darparu fframwaith DPP ystyrlon trosfwaol ar gyfer holl weithgareddau Trosglwyddo Gwybodaeth, dysgu gydol oes a datblygu Cyswllt Ffermio |
| 11 | Yn y dyfodol, bydd mwy o waith i gasglu gwybodaeth am ddysgu, datblygiad proffesiynol, gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth fusnes yn digwydd ar blatfformau'r cyfryngau newydd. Bydd hyn yn gofyn am ddarpariaeth dda o ran band eang cyflym yng nghefn gwlad, darpariaeth ddysgu ar-lein sy'n hygyrch a dull cydlynol o gyfeirio at | Derbyn (yn rhannol) | Y sector Colegau a Phrifysgolion, Llywodraeth Cymru | Croesewir archwiliad gan y sector colegau a phrifysgolion o wybodaeth am ddeunyddiau dysgu ar-lein ym maes busnesau fferm a rheolaeth ariannol a marchnata i osgoi dyblygu diangen a chroesewir cyflenwoldeb a bydd hyn yn cael ei awgrymu wrth grŵp y tri phrif ddarparwr cyrsiau Amaethyddiaeth Lefel 3 a gynigir | Hydref 2015 | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Bydd strategaeth y Colegau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn ymgorffori'r argymhelliad hwn, a bydd yn rhan o'r cynllun gweithredu a ddaw yn sgil hynny.<br><br>Trwy ddyfarnu tendr Fframwaith Cyswllt Ffermio, |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ddata technegol a ddelir ar-lein gan sefydliadau amrywiol. Rwy'n argymell bod y sector colegau a phrifysgolion yn cynnal archwiliad o ffynonellau gwybodaeth am ddeunydd dysgu ar-lein (a hwnnw'n cynnwys cymwysiadau penodol) ym maes busnesau fferm a rheolaeth ariannol a marchnata. Os na fydd digon o ddeunydd ar-lein ar gael yn y cyswllt hwn, rwy'n argymell y dylai Llywodraeth Cymru wahodd tendrau i ddatblygu a darparu deunydd o'r fath. | | | fel rhan o argymhelliad 2.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i unigolion yn y diwydiant ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol. Bydd cyfle trwy Cyswllt Ffermio i dendro am gontract i ddarparu gwasanaethau dan Raglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020. | | cefnogir datblygiad proffesiynol ac mae ystod o gymorth ar-lein trwy'r Rhaglen Datblygu a Dysgu Gydol Oes wedi'i ddarparu. Dechreuodd y Rhaglen ym mis Hydref 2015.<br><br>Amcan Cyflymu Cymru yw cysylltu cartrefi a busnesau yng Nghymru â band eang cyflym iawn. Yn sgil rhoi'r prosiect ar waith, mae mwy a mwy o ardaloedd gwledig yn cael elwa ar fand eang cyflym iawn. Hyd yma, diolch i'r prosiect, mae dros 596,000 o safleoedd wedi'u cysylltu â band eang cyflym iawn.<br><br>Yn ogystal â Cyflymu Cymru, mae'r cynllun Allwedd Band Eang Cymru a'r cynllun Taleb Gwibgyswllt yn gallu helpu cartrefi a busnesau gwledig i gael y cysylltedd sydd ei angen arnyn nhw. Mae Allwedd Band Eang Cymru yn talu (neu'n talu'n rhannol) am |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gostau gosod band eang newydd mwn cartrefi a busnesau yng Nghymru. Mae'r Dalen Gwibgyswllt yn darparu hyd at £10,000 i dalu (neu dalu'n rhannol) am gostau gosod cysylltiadau cyflym iawn newydd ar gyfer busnesau yng Nghymru. . |
| 12 | Rwy'n argymell y dylai cynlluniau datblygiad personol gael eu hannog fel rhagofyniad i gael cyllid ar gyfer cyrsiau gan Cyswllt Ffermio. Mae angen inni hyrwyddo pwysigrwydd cynlluniau datblygiad personol fel rhai sydd yr un mor berthnasol â chynlluniau busnes. Mae hyn yn rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud gan weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys yr undebau ffermwyr, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, CFfI, Lantra, Cyrff Ardoll, CAFC. | Derbyn | Llywodraeth Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i unigolion yn y diwydiant ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol ac mae'n cefnogi'r angen i gofnodi a gwerthuso'r wybodaeth.<br><br>Bydd gan fyfyrwyr unigol sy'n dilyn cyrsiau AB ac AU gynlluniau dysgu unigol a bydd y rhaglen Cyswllt Ffermio nesaf yn ystyried cyflwyno Cynlluniau Datblygiad Personol i ganfod bylchau o ran gwybodaeth a sgiliau unigolion. | Hydref 2015 | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Mae cwblhau Cynllun Datblygiad Personol (CDP) ar-lein yn gam cyntaf gorfodol i unigolyn cymwys sydd am gael y cyllid hyfforddiant i fynd ar y Rhaglen Datblygu a Dysgu Gydol Oes. Bydd y CDP yn sicrhau bod gan y cwsmer lefel sylfaenol o wybodaeth ac yn helpu i nodi anghenion hyfforddi tra'n ffordd hefyd i fesur cynnydd/gwelliant. |
| 13 | Bod grŵp y strategaeth yn cymryd rhan mewn trafodaeth anffurfiol i sefydlu momentwm o fewn y | Derbyn (mewn egwyddor) | Llywodraeth Cymru | Bydd swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau yn annog cydweithio rhwng Ysgolion a | Yn barhaus | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Mae Cymwysterau Cymru |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cwricwlwm ysgolion ar gyfer mabwysiadu TGAU mewn Gwyddor Amaethyddol yn fwy eang. Ar ben hynny, argymhellir y dylid rhoi'r cyfle i athrawon yng Nghymru gofleidio enghreifftiau o feysydd amaethyddiaeth, bwyd ac adnoddau naturiol yn fwy eang yng nghwricwlwm eu hysgolion. Dylai proffil datblygiad staff mewn addysg amaethyddol gael ei adolygu yn y sector ysgolion a'r sector AB. | | | Sefydliadau Addysg Bellach i rannu darpariaeth.<br><br>Mae angen i Cymwysterau Cymru fynd ati i ddatblygu TGAU newydd. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r holl arlwy TGAU gwyddoniaeth yn 2016. Bydd hyn yn sicrhau bod arlwy TGAU gwyddoniaeth sy'n berthnasol ac yn gydlynol ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Dylai grŵp y strategaeth fod yn rhan o'r gweithgarwch hwn i ganfod yr angen am TGAU Gwyddor Amaethyddol. | | wedi datblygu ystod o gymwysterau TGAU diwygiedig ac wedi'u rheoleiddio mewn gwyddoniaeth ar gyfer eu haddysgu o 2016. Nid yw'r ystod yn cynnwys TGAU mewn Gwyddor Amaethyddol ac nid oes cynlluniau i ddatblygu un.<br><br>Ar hyn o bryd, ceir 27 o gymwysterau 'amaethyddol' yng Nghymru – llawer ohonynt ar lefel 2 BTEC/City and Guilds (sy'n cyfateb i TGAU).<br><br>Dylai cyrff sy'n cynrychioli'r sector fynd ati i gefnogi datblygu TGAU Amaethyddiaeth gyda rheoleiddwyr annibynnol Cymru os gwelan nhw fod yr angen a'r galw. |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | bod darparwr gwasanaethau'n cyflawni rôl arweiniol gan fynd ati gyda NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, CFfI, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC), Lantra, Gyrfa Cymru a cholegau AB yng Nghymru i weithio gyda FACE i wella effaith a chylchrediad deunyddiau i ysgolion, gan felly eu galluogi i wneud achos dros y diwydiant a'i gyflwyno fel gyrfa dewis cyntaf. Gellid datblygu rhaglen llysgenhadon i arddangos pobl sydd wedi datblygu gyrfa lwyddiannus ac annog pobl ifanc i geisio a manteisio ar gyfleoedd megis cyfranogiad yn Academi Amaeth Cyswllt Ffermio, Ysgoloriaeth Ffermio Nuffield a mentrau eraill i annog ac ysbrydoli pobl ifanc i ymuno â'r sector amaethyddol.<br><br>Fe allai CAFC fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar gymdeithasau sioeau amaethyddol eraill yng Nghymru i sicrhau rhwydwaith sy'n cyrraedd yr holl ysgolion yng | Derbyn (mewn egwyddor) | Yr holl ddarparwyr gwasanaethau a Llywodraeth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso cyfarfod cychwynnol rhwng yr Athro Wynne Jones a darparwyr gwasanaethau i drafod argaeledd y deunyddiau y gellir eu cylchredeg i ysgolion yng Nghymru i hyrwyddo'r diwydiant fel dewis gyrfa i'r myfyrwyr. | Hydref 2015 | **Wedi'i gwblhau.**<br><br>Mae'r Athor Wynne Jones wedi cwrdd â swyddogion yr holl gyrff hyn ac wedi'u hannog i gydweithio er mwyn gwireddu uchelgais yr argymhelliad hwn.<br><br>O dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, bydd Cyswllt Ffermio'n parhau ac yn datblygu'r Academi Amaeth fydd yn llwyfannu pobl sydd wedi datblygu gyrfa lwyddiannus, ac annog ac ysbrydoli pobl ifanc i'r sector amaeth. |

| | Argymhelliad | Ymateb | Cyfrifoldeb | Cam Gweithredu | Amserlen | Cynnydd – Gorffennaf 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nghymru. | | | | | |
| 15 | Dylai CAFC adeiladu ar gyd-leoliad presennol Lantra, CFfI Cymru a cholegau a phrifysgolion â darpariaeth o ran diwydiannau'r tir sy'n cynnal arddangosfeydd yn ei sioe flynyddol i ddatblygu cysyniad "pentref dysgu" i gyflwyno, datblygu ac atgyfnerthu pwysigrwydd a pherthnasedd ein sector fel gyrfa i ymgyrraedd ati. | Derbyn (mewn egwyddor) | CAFC | Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi mewn egwyddor yr argymhelliad y dylai CAFC gwrdd â cholegau a phrifysgolion yng Nghymru i sefydlu perthynas weithio. Dylai hyn gynnwys trafodaeth am y cynnig i greu 'pentref dysgu' ar faes y sioe y gall yr holl ymwelwyr fynd iddo i roi anogaeth i ddysgu a datblygu o fewn y diwydiant. | Haf 2015 | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae CAFC wedi ymrwymo i gefnogi pobl ifanc a hyrwyddo amaethyddiaeth fel gyrfa. Roedd nifer o golegau a sefydliadau blaenllaw yn bresennol yn Sioe Fawr 2016, gyda Coleg Cambria a'r Harper Adams University â stondinau ar bwys Lantra a CFfI Cymru. Mae nifer o gyfyngiadau ymarferol a ffisegol yn rhwystro'r potensial i greu 'pentref dysgu', ond mae'r sefydliadau hyn wedi helpu i greu amgylchedd dysgu anffurfiol. Bydd CAFC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i wella cynnwys addysgol y digwyddiadau hyn. |